Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

# MAE'N RHAID GWEITHREDU NAWR

# YDYCH CHI'N BAROD AM REOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDA'R UE?

## Neges frys gan yr Ysgrifennydd Busnes

Dim ond ychydig **dros fis** sydd i fynd bellach tan ddiwedd y cyfnod pontio a bydd rheolau newydd i ddilyn o'r 1af o Ionawr 2021 ymlaen. Fel yr Ysgrifennydd Busnes, rwy'n eich annog i **WEITHREDU NAWR** i osgoi ymyriadau i weithrediadau eich busnes pan ddaw'r cyfnod pontio i ben.

Fel busnes yn y sector gwasanaethau busnes proffesiynol, gallwch ddarganfod beth sydd angen i chi wneud wrth fynd at gov.uk/services-2021. Y prif gamau y gallwch eu cymryd nawr i baratoi ar gyfer hyn yw:

1. **Sicrhewch fod eich cymwysterau proffesiynol yn cael eu cydnabod gan reoleiddwyr yr UE i allu gweithio neu wasanaethu cleientiaid yn yr UE.**
   Gall dechrau'r broses o sicrhau bod eich cymwysterau proffesiynol yn cael eu cydnabod gan reoleiddwyr yr UE erbyn 31 Rhagfyr 2020 eich helpu i weithio yn eich proffesiwn (e.e. cyfrifeg, peirianneg) yn yr UE.

2. **Gwiriwch os bydd angen fisa neu drwydded waith i deithio i'r UE am ddibenion gwaith a gwneud cais amdanynt yn unol â hynny.**
   Mae'n bosib y byddwch yn wynebu oedi neu y gwrthodir eich gadael i mewn i wlad pan fyddwch yn teithio at ddibenion busnes os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion mewnfudo UE27 o'r 1 Ionawr 2021.

3. **Paratowch ar gyfer diogelu data a throsglwyddo data.**
   Mae'n bosib na fydd eich busnes yn gallu cael data personol yn gyfreithlon o'r AEE o'r 1af o Ionawr 2021 os nad ydych wedi rhoi prosesau diogelu eraill mewn lle i ddiogelu data UE i'r DU.

4. **Os ydych yn bwriadu cyflogi o dramor o 1af o Ionawr 2021, bydd angen i chi gofrestru fel noddwr trwyddedig.**
   Efallai na fyddwch yn gallu cyflogi pobl o'r tu allan i'r DU yn gyfreithiol os nad oes gennych drwydded. Bydd angen i weithwyr newydd o'r tu allan i'r DU gwrdd â gofynion swydd, cyflog ac iaith newydd hefyd. Ni fydd hwn yn effeithio ar ddinasyddion Iwerddon a'r rhai sy'n gymwys o dan Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE.



DARGANFYDDWCH BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD DRWY DDEFNYDDIO'R OFFERYN GWIRIO

GOV.UK/SERVICES-2021

- Gwiriwch
- Newidiwch
- Ewch

**GALL Y NEWIDIADAU GYMRYD MWY O AMSER I'W GWEITHREDU NAG YR YDYCH CHI'N MEDDWL, FELLY DECHREUWCH HEDDIW.**

Mae'r Llywodraeth yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth, gan gynnwys webinarau i'ch arwain drwy'r newidiadau. Mae'r rhain ar gael i'w gwylio ar: **gov.uk/transition-webinars**. Dylech hefyd wirio gyda'ch cyflenwyr a'ch cwsmeriaid eu bod nhw hefyd yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Mae hwn yn gyfnod heriol, ond mae'r cyfnod pontio yn dod i ben ar yr $31^{ain}$ o Ragfyr 2020 ac **NI FYDD ESTYNIAD**. Oni bai eich bod yn gweithredu nawr, mae risg y bydd ymyriadau i weithrediadau eich busnes. Bydd y Llywodraeth yno i'ch helpu i gymryd mantais o'r nifer o gyfleoedd newydd a ddaw yn sgil bod yn genedl fasnachu annibynnol.

Yn gywir,

**Yr Gwir Anh. Alok Sharma MP**
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes,
Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

**SGANIWCH I WRANDO**
**AR EIN GWEMINARAU**

Gwiriwch
Newidiwch
Ewch

Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

**MAE RHEOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDAG EWROP YN DECHRAU AR 01 INOAW 2021**

MAE CAMAU SYDD ANGEN I'CH BUSNES EU CYMRYD NAWR AR GOV.UK/SERVICES-2021